**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 30 MEHEFIN 2021 DYDD MERCHER, 30 MEHEFIN 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: J. HILL (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cook
P. Edwards
K. Hayden
S. Healy
W. Hodgins
J. C. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Rowson

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorydd B. Willis a'r Pennaeth Adfywio a Datblygu. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 7 y cyfarfod, h.y. ymateb y Swyddog i gwestiwn gan Aelod am y gwelliannau i'r ddolen reilffordd a'r benthyciad o £70m. Dywedodd iddo wrando ar y recordiad o'r cyfarfod a dywedodd na chyfeiriodd y Swyddog at y £70m yn ei hymateb, ond dywedodd fod 'hwn yn arian ar wahân i bob awdurdod lleol i weithio ar brosiectau wrth ochr adnewyddu'r rheilffordd'.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 28 EBRILL 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021, yn cynnwys:-<br><br>*<u>Adolygu Perfformiad Ch4 202/21 Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 8 cofnodion y cyfarfod blaenorol pan ofynnodd Aelod pwy fyddai'n gyfrifol am unrhyw ddiffyg yn y cyllid pe na fyddai nifer y teithwyr yn cyrraedd yr ad-daliadau benthyciad. Gan na fedrai'r Swyddog ymateb bryd hynny, dywedodd y gofynnwyd i hynny gael ei nodi fel pwynt gweithredu.<br><br>*<u>Lleoliadau ar gyfer mannau gwefru trydan</u>*<br><br>Dywedodd Aelod nad oes unrhyw leoliadau wedi eu dynodi ar gyfer Tredegar ar hyn o bryd.<br><br>Mewn ymateb esboniodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio mai'r rhain oedd y safleoedd gwreiddiol a ddynodwyd fel y rhai mwyaf fforddiadwy dan y cyllid ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r Fargen Ddinesig ar gyfer mannau gwefru ychwanegol, i gynnwys Tredegar a hefyd ddarparu mannau gwefru mewn safleoedd tacsi ledled y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Fwrdeistref.<br><br>Dywedodd y Swyddog na wyddai faint yn fwy yn union o fannau gwefru ychwanegol oedd ar hyn o bryd, ond dywedodd fod cwmnïau sy'n barod i'w gosod yn rhad ac am ddim am elw masnachol, ac mae'r dewis hwn hefyd yn cael ei ymchwilio. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai o leiaf 2 fan gwefru ym mhob safle tacsi.<br><br>Gofynnodd Aelod os gallai aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r mannau gwefru mewn safleoedd tacsi. Atebodd y Swyddog fod hyn yn annhebygol am resymau diogelwch gyda symudiad tacsis ac yn y blaen a gofynion y gorchmynion rheoleiddio traffig fyddai eu hangen. Dywedodd y Swyddog hefyd fod arwyddion yn rhan o'r rhaglen ac y byddai'r rhain yn cael eu codi cyn i'r mannau gwefru fynd yn fyw.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y byddai nodyn gwybodaeth ar fannau gwefru cerbydau trydan yn fanteisiol i Aelodau.<br><br>Gofynnodd Aelod am ymgynghori gydag Aelodau Ward ar y lleoliadau a gynigir ar gyfer mannau gwefru o hyn ymlaen. Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio y cynhelir ymgynghoriad gydag Aelodau cyn dynodi unrhyw ardaloedd.<br><br>Yng nghyswllt Sesiwn Briffio Aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr corfforaethol nad yw Trafnidiaeth Cymru wedi cadarnhau dyddiad hyd yma.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2021-22 Y PWYLLGOR CRAFFU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Blaenraglen Gwaith arfaethedig y Pwyllgor Craffu ar gyfer 2021-22.<br><br>Awgrymodd Aelod y dylid gohirio Adroddiad Aneurin Bevan i ddigwydd ar yr un pryd â chyflwyno Adroddiad Canol Tref Tredegar/Adroddiad Treftadaeth Tref. Awgrymwyd y dylid cynnig ymweliad i 10 Y Cylch pan godir cyfyngiadau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Aelod arall y dylid cyflwyno adroddiad ar unedau masnachol y Fwrdeistref ynghynt, yng ngoleuni problemau diweddar oherwydd y trefniadau prydles newydd.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan ddywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na chaiff manylion trefniadau rhwng y Cyngor a chwmnïau unigol eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Perfformiad Eiddo Diwydiannol. Mae'r adroddiad yn rhoi'r sefyllfa gyffredinol yn nhermau adolygu prydlesau a nifer y bobl sydd wedi trosi i'r trefniadau prydles newydd fel rhan o'r rhaglen Pontio'r Bwlch a gytunwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, gellid llunio adroddiad penodol ar drefniadau prydles a'r hyn a gytunwyd gan y Cyngor.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y cyflwyniad diweddar i Aelodau ar y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r Gronfa Rhannu Ffyniant a gofynnodd am adroddiad ar y cynigion am y Gronfa Codi'r Gwastad i'r Pwyllgor Craffu cyn ei gyflwyno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gobeithir derbyn penderfyniad ar y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf a chyflwynir adroddiad ar y cynigion cymeradwyo i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.<br><br>Yng nghyswllt cynigion i Gronfa Codi'r Gwastad, bydd adroddiadau ar wahân arnynt i'r Pwyllgor Craffu yn ceisio cytundeb ar y math o brosiectau a gyflwynir.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai diwedd mis Gorffennaf oedd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, ond ni fedrai roi dyddiad penodol.<br><br>Yng nghyswllt Cronfa Codi'r Gwastad, ni fedrai roi dyddiad cau ar gyfer cylch nesaf y cynigion, fodd bynnag bydd y Gronfa yn dod i ben yn 2023/24. Tanlinellodd hefyd ei bod yn bwysig mai dim ond cynigion sy'n barod i fynd a gyflwynir gan ei bod yn broses gystadleuol iawn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol na fedrai roi unrhyw fanylion am y Gronfa Rhannu Ffyniant, ond mae'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol yn rhagflaenydd posibl i'r Gronfa honno. Fodd bynnag, nid oedd cais llwyddiannus i'r CRF yn golygu | |

| | | |
|---|---|---|
| | mynediad awtomatig i gyllid Rhannu Ffyniant. Rhoddodd sicrwydd y caiff Aelodau eu hysbysu pan ddaw mwy o wybodaeth ar y gronfa Rhannu Ffyniant i law.<br><br>Gofynnodd Aelod am adroddiad am nifer y swyddi a gafodd eu creu/colli ac effaith pandemig Covid ar lefelau diweithdra ym Mlaenau Gwent.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio bod yr wybodaeth hon yn cysylltu gydag adroddiad adfer Covid-19 ymhellach ar yr agenda yn nhermau adeiladu dulliau i fonitro sut mae gwaith y Cyngor yn cefnogi'r gymuned mewn creu swyddi a diogelu swyddi.<br><br>Dywedodd yr Aelod y byddai adroddiad blynyddol ar ffigurau swyddi yn ddefnyddiol, a dywedodd y Swyddog y gellir amlygu'r wybodaeth hon o fewn dulliau adrodd perfformiad rheolaidd.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent, a gofynnodd os oedd hyn yn ymarferol oherwydd yr oedi yn y broses.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai dyma'r amserlen y gweithir iddi ar hyn o bryd, fodd bynnag efallai y gall hyn newid oherwydd pwysau presennol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae gan y Cyngor gytundeb cyflenwi gyda Llywodraeth Cymru ac mae Swyddogion yn gweithio'n anodd i gyrraedd yr amserlen honno.<br><br>Yng nghyswllt y sylwadau blaenorol am ffigurau cyflogaeth, dywedodd y gellid defnyddio'r Adroddiad Perfformiad i roi sylw i wybodaeth benodol, ac y byddai'r adroddiad ar Adferiad Covid-19 ar yr agenda yn codi peth data pennawd am gyfraddau diweithdra a chyfraddau hawlwyr budd-daliadau y gellid ei ddefnyddio i ddadansoddi ein hadferiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer 2021-22 (Opsiwn 2). | |
| **No. 7** | **<u>BUDDSODDIAD BWRDEISIOL CYMUNEDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n gofyn am gymeradwyaeth i symud ymlaen gyda Buddsoddiad Ynni Cymunedol fel offeryn ariannol i gyllido seilwaith cynhyrchu ynni carbon isel a thechnoleg i ddarparu a gwres i breswylwyr a busnesau Blaenau Gwent.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau a gynhwysir ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai'r Cyngor yn dal i fedru cael mynediad i gyllid yr Undeb Ewropeaidd, a pha enilliad y gallai pobl ei ddisgwyl ar eu buddsoddiad.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog y byddai Sesiwn Briffio i Aelodau ar gyllid Ewropeaidd yn fanteisiol. Yn nhermau'r cyllid hwn, roedd yn wreiddiol drwy Horizon 2020 ac er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, roedd cytundeb y gallai'r Deyrnas Unedig barhau i gymryd rhan yn y trefniant cyllid hwn. Roedd hyn hefyd yn wir am Horizon European, ei olynydd yn y rhaglen.<br><br>Yn nhermau cyfradd yr adenilliad y gellid ei ddisgwyl, mater i'r Cyngor yw penderfynu hyn. Anelwyd iddo fod yn is na chyfradd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus sy'n tueddu i fod rhwng 2-4%. Byddai'r Cyngor yn cytuno ar gyfradd ychydig yn is na hynny, a dyna fyddai'r enilliad i breswylwyr.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.4 yr adroddiad a gofynnodd os y gellid defnyddio'r gronfa bondiau i ddarparu benthyciadau.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y gronfa bondiau o fudd i'r Cyngor i'w defnyddio yn hytrach na mynd i fanc neu fenthyca darbodus.<br><br>Wedyn cyfeiriodd yr Aelod at adran 2.5 a gofynnodd pwy fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo prosiectau.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod Awdurdodau wedi cymryd y dull o nodi prosiect penodol, neu gallai'r Cyngor fod eisiau cymryd dull mwy cyffredinol a dywedodd y byddai arian yn mynd at nifer o brosiectau a gynhwysir o fewn ein Prosbectws Ynni, gyda sicrwydd achos busnes. Fodd bynnag, byddai'r risg gyda'r Cyngor i gynnal y prosiectau hyn a bod â'r arian i ad-dalu'r benthyca, felly mae'n bwysig peidio cyrchu unrhyw arian nes fod prosiectau'n barod i fynd rhagddynt. Gellid defnyddio strwythurau arferol y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor i reoli'r broses honno.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr effaith bosibl ar brosiectau pe byddai buddsoddwr yn penderfynu tynnu eu harian.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog y byddai bondiau fel arfer yn cael eu buddsoddi am gyfnod penodol, 5 mlynedd fel arfer. Fodd bynnag, pe byddai buddsoddwr eisiau tynnu eu harian byddai'n mynd yn ôl i'r llwyfan drwy Abundance a byddai'r bond yn cael ei ailhysbysebu.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd y Swyddog y pwyntiau a godwyd gan Aelodau.<br><br>Mynegodd Aelod bryderon am yr effaith ariannol ar yr Awdurdod pe byddai'r cwmni yn methu, a gofynnodd os y byddai'r cyllid yn cael ei warantu.<br><br>Mewn ymateb esboniodd y Swyddog fod y cwmni yn llwyfan i hwyluso'r buddsoddiad ac mae'r arian ar gyfer y Cyngor i'w fuddsoddi. Methiant y Cyngor i gyflawni'r prosiect oedd y risg fwyaf i fuddsoddwyr, fodd bynnag caiff hyn ei wneud yn glir fel rhan o'r prosesau diwydrwydd dyladwy a thrafodaethau gyda'n Hadran Gyfreithiol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu yn:<br><br>• Cymeradwyo Opsiwn Un fel y ffordd a ffafrir i symud ymlaen;<br>• Dechrau diwydrwydd dyladwy wrth ochr y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol ynghyd â'r Prif Swyddog Adnoddau;<br>• Cymeradwyo lansiad Bondiau Bwrdeisiol Cymunedol yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy a llofnodi terfynol y cytundebau angenrheidiol a ddirprwywyd i'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol mewn ymgynghoriad gyda Phrif Swyddog Adnoddau; a<br>• Dirprwyo'r Prif Swyddog Adnoddau i benderfynu ar ddyddiad lansio'r bond yn ffurfiol, cyfnod y bond a chyfradd cyhoeddi'r bond cyn belled â'i fod yn is na'r gyfradd PWLB. | |
| **No. 8** | **DATBLYGU MODEL YNNI BUSNES I ALLUOGI PARCIAU BUSNES I SICRHAU CANLYNIADAU SERO NET** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi manylion cefndir y prosiect ac y gwneir cynnydd fel arddangosydd o Raglen Byw yn Glyfar Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o brosiect WBRID ('Whole System Business Research Innovation for Decarbonisation') a throsolwg o gystadleuaeth WBRID Blaenau Gwent.<br><br>Croesawodd Aelodau yr adroddiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 9** | **<u>ADFERIAD COVID-19 - ECONOMI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi crynodeb i Aelodau o'r gwaith a wnaethpwyd a'r cynigion i gefnogi 'adferiad' economaidd o fewn Blaenau Gwent.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod y byddai wedi hoffi gweld cysylltiad gyda rhaglenni cyflogadwyedd presennol ym Mlaenau Gwent a allai roi cyfleoedd hyfforddiant i helpu busnesau i ddynodi unrhyw fwlch sgiliau yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio fod gan y Cyngor berthynas dda iawn gyda nifer o bartneriaid yn y maes hwn ac y byddai rhwydweithiau presennol yn dal i chwarae rhan allweddol yn y gwaith.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylwadau flaenorol a dywedodd y byddai'n ddiddorol gwybod faint o fusnesau sy'n dal i weithredu cyn pandemig Covid a faint sy'n dal i fod yn gweithredu.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod dadansoddiad o'r data hwn yn rhan allweddol o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd yn nhermau dynodi | |

| | | |
|---|---|---|
| | effaith Covid ar fusnesau lleol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |